


Beth sydd ei angen ar blanhigion?

Yn union fel bodau dynol, mae angen rhai pethau ar blanhigion er mwyn iddyn nhw dyfu a bod yn iach.

Allwch chi gofio unrhyw bethau sydd eu hangen ar blanhigion i dyfu a bod yn iach?

<https://youtu.be/mRdavbBf2Gs>




Maetholion o bridd

Rydych chi'n mynd i fod yn ymchwilio effaith maetholion ar dyfiant planhigion.

Mae planhigion yn cymryd eu maetholion o'r pridd.

Beth yw pridd?


Beth yw ei gynnwys?



Beth yw pridd?

Mae pridd yn cynnwys:

- **Mwynau**
(o greigiau wedi'u torri i lawr)
- **Aer**
(sy'n cynnwys nwyon fel carbon deuocsid ac ocsigen)
- **Dŵr a defnydd organig**
(planhigion ac anifeiliaid sy'n pydru).




Pridd iach

Rhaid i ffermwyr weithio'n galed i sicrhau bod eu priddoedd yn cadw'n iach ac yn llawn digon o faetholion ar gyfer eu planhigion.

Un o'r ffyrdd y mae ffermwyr yn gwneud hyn yw trwy roi gwrrtaith ar eu pridd. Mae gwrrtaith yn rhoi'r maetholion yn ôl i'r priddoedd y mae'r planhigion wedi'u tynnu allan yn barod ar gyfer y cnwd nesaf.

Gall gwrrtaith fod yn organig (gwastraff anifeiliaid) neu'n synthetig (wedi eu gwneud).


Rydyn ni'n mynd i ddefnyddio gwrrtaith synthetig yn ein hymchwiliad.



Pridd iach a newid hinsawdd

Mae pridd iach hefyd yn storio carbon.

Mae carbon yn yr atmosffer yn achosi newid hinsawdd felly trwy edrych ar ôl eu pridd a'i gadw'n iach, mae ffermwyr yn helpu i ymladd yn erbyn newid hinsawdd.



Prawf teg

Mae prawf teg yn ymchwiliad rheoledig sy'n cymharu dau beth. Er mwyn i brawf fod yn deg neu'n cael ei reoli'n dda, mae'n rhaid i ni sicrhau mai dim ond un peth (gelwir hyn yn newidyn) sy'n cael ei newid a bod popeth arall yn cael ei gadw yr un peth.

Newidyn yw unrhyw beth a all effeithio ar y canlyniadau yr ydym yn arsylwi neu'n eu mesur.

Yn ein hymchwiliad, byddwn yn defnyddio tri hedyn. Byddwn yn newid faint o wrtaith fydd yn y pridd ac yn cadw popeth arall yr un peth. Yna byddwn yn trin pob un o'n hadau yn union yr un fath ac yn arsylwi ar yr hyn sy'n digwydd i'r planhigion rydyn ni'n eu tyfu ohonyn nhw.

Trwy newid un peth yn unig, gallwn weld a yw'r un peth hwnnw'n gwneud gwahaniaeth i sut mae'r planhigyn yn tyfu.

Pam ei bod yn bwysig inni newid un newidyn yn unig a chadw popeth arall yr un peth?




Arsylwi

Gosodwch eich ymchwiliad.

Cofiwch labelu'ch planhigion yn glir ar ddechrau'r ymchwiliad fel eich bod chi'n gwybod pridd pa blanhigyn oedd â'r mwyaf / lleiaf o wrtaith.

Cadwch ddyddiadur arsylwi a diweddarwch eich tabl canlyniadau yn rheolaidd.



Casgliad


Astudiwch eich canlyniadau ac ysgrifennwch esboniad o'r hyn yr ydych wedi ei ddarganfod.

Yn eich casgliad, eglurwch beth mae hyn yn ei ddweud wrthyich am effaith maetholion ar dyfiant planhigion.

Byddwch yn barod i gyflwyno'ch syniadau i weddill y dosbarth.

Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn bwysig i ffermwyr?


Pam mae hyn yn bwysig ar gyfer eu helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd?



Gwerthuso

Meddylwch yn feirniadol am eich ymchwiliad:

- A oedd unrhyw beth na chafodd ei reoli a allai fod wedi effeithio ar eich canlyniadau?
- A wnaethoch chi gynnal prawf teg?
- Sut allech chi wella'ch ymchwiliad pe byddech chi'n ei wneud eto?
- Sut allech chi wneud eich canlyniadau'n fwy dibynadwy?



Cystadleuaeth



Meddyliwch sut y gallech chi ddefnyddio'ch dysgu am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion ac iechyd y pridd i'ch helpu chi i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.

www.farmvention.com

